


BMC CYMRU



NEXT MEETING TUESDAY 9TH JUNE 9PM

Deganwy Castle Hotel - Free Food - All Welcome

Diary Dates

- June 9th, Deganwy Castle Hotel, 9.00 pm, free food as usual.
- September 1st, The Vaynol, Nant Peris, 8.00 pm.
- December 5th, Plas y Brenin, BMC Cymru Funday.

Slate Quarries Update First Hydro Meeting

Elfyn Jones, BMC volunteer and Chair of Llanberis MRT and Mike Raine, Chair of BMC Cymru/Wales, met with Dave Alcock (First Hydro CEO), Mike Hickey (Manager of the Dinorwig site), Tony Thomas (Premises Manager) and Sue McClaren (Health and Safety Manager) to discuss climbing in the quarries recently.

We explained the importance of the site to climbing and climbers locally, nationally and indeed internationally.

First Hydro are keen that we understand their concern over how to manage the site. Legally they cannot allow climbing on the site and the current increase in usage has caused the Premises Manager some concern as part of his job is to ensure that visitors to the quarry do not stray from the public right of way.

They acknowledge that climbers and groups are not actually causing any problems at the moment but that they do have a big concern about access to the site by people seeing climbers and groups on the site

and thinking it is ok and safe to enter.

It would definitely be helpful if you do visit the quarries and the site you choose to visit already has large numbers there that you go somewhere else. If you are approached be mindful that the person approaching you is only doing their job.

If you are unhappy with the nature of their approach then please contact Mike Raine via bmccymruwales@live.co.uk

National Council / AGM

National Council met prior to the AGM on 25th April at PYB. There was more hot air about the Olympics, a proposal on a policy statement that says the BMC will recognise the traditions of UK climbing what-

ever new developments come along. Finances are good. The AGM went well, a interesting presentation on coaching was followed by the National Open Forum and then the AGM itself, at which Rab Carrington was voted in as President. Full report on BMC website and UKC.

Clwyd Limestone Bird Nesting Reminder

Just a gentle reminder for climbers thinking of sampling this delightful area - a number of the crags have active nesting restrictions for protected birds. The BMC has received several reports of people climbing in restricted areas and affecting the behaviour of nesting birds.

Climbers generally have an excellent relationship with the local twitchers and these restrictions only cover a safe minimal area. In addition, the sites are regularly monitored and restrictions are often lifted early. Please play your part in making sure these voluntary arrangements continue to work. The BMC RAD pages contain all the up-to-date Clwyd limestone nesting restrictions.

Guy Keating

News from Pembroke

Steve Quinton and Lynne Ferrand (climbing ranger) put 13 belay stakes in Range West in February. We also had a site visit to St. Govans with Bob Haycock from CCW 2 weeks ago to check out a peregrine pair that seem to be setting up a nest. This has resulted in a temporary restriction right of *New Look Arete* to the huge rock fall where *Face Value* etc. used to be. BMC RAD has been updated.

Mountain Leader Training Wales: news from February's meeting

Final details of the MLTW Development Officer post were discussed and that position has now been advertised as a .7 post.

Good progress has been made in translating 'Hillwalking' into Welsh. The hope was expressed that the book would be launched by June/July in time for the National Eisteddfod. Thanks were expressed to Mike Raine for helping to push the project forward. Ian Henderson gave a general perspective of recent events in Mountain Rescue. John Cousins highlighted a deficiency in the Met. Office web based weather forecast for the Snowdonia region - it has no hazard warning unlike areas such as the Lake District.

John also reported on his recent meetings with AAIAC and on the development of a UK ropes course guide based on European norms.

Joe Roberts from CCW



reported that a meeting of people who frequented local gorges for sporting purposes had been held. The outcome was the development of some informal guidance notes for the sustainable use of these areas and other similar venues. A conference to discuss such issues is to be held in Edinburgh on 18th November.

3rd ANNUAL BMC CYMRU TREMADOG FESTIVAL: 18TH/19TH APRIL, 2009.

For the third consecutive year, the weekend of the 18th/19th April saw the hosting of the BMC Cymru Wales Tremadog Festival. Accompanied by wall to wall sunshine and soaring temperatures, a total of 90 climbers from all over the U.K. turned up at Eric's caff and field to volunteer their 'green-fingered' services.



The aim of this annual gathering is to trim and garden spring plant growth from many of the routes at the BMC owned, Craig Bwlch Y Moch. In total, 52 routes were cleaned and tidied. Some required just a quick fettle with the secateurs whilst others were subjected to a more extensive level of cleaning.

Organised by Mike Raine of BMC Cymru in association with the Countryside Commission for Wales, this event positively demonstrates and confirms climber's changing attitudes to the cleaning of established rock climbs.

Without this sort of annual event many of the classic and, especially, the not-so-classic routes would become hopelessly overgrown by the encroaching vegetation and, eventually, render these routes effectively un-climbable.

In addition to this, some ground work was also done at the base of the cliff to the paths and steps. At the top of the cliff the abseil stations towards the right-hand end were inspected and, in some cases, replaced with new static line and mail-lons. Please adhere to the new advice signage on the crag notice board if intending to use them rather than walk down.

The après-cleaning festivities continued into the evening with a raffle and prize draw with prizes very kindly donated by local businesses such as DMM, V12, Joe Brown Shop, Pete's Eats, Ground Up, Chris Williams and the Brondanw Pub at Llanfrothen.

By some coincidence, there were around 90 prizes so everyone won something!! This was followed by a slide show on Patagonia hosted by Tim Neil and a campsite bonfire in Eric's field. All this was washed down with 3 barrels of fine real ale provided courtesy of the Climber's Club, the BMC and Derby University M.C.

Thanks also go out to Eric Jones who provided the warm hospitality and seemingly endless supplies of sausage and chips! However, the biggest thanks go out to all the climbers who gave up their own time and energy to undertake the various tasks.

Apart from completing some very valuable and much needed work, the weekend was also very much a social success. It not only raised awareness for a set of environmental issues affecting one of Wales' premier crags but showed how "we", as climbers, can give something back to the thing that we use

and take so much pleasure from.

Jim Kelly

Tremadog Footnote: Tree Surgeons on Bwlch y Moch site from 5th May

BMC Access and Conservation Officer (Wales).

The post is being advertised and interviews will be on the 10th of June, sadly just the day after our next meeting, so it'll be meet the officer at the September meeting.

An Unexpectedly United Wales

The Welsh final of the BMC Youth Climbing Series took place at the Beacon Climbing Centre in Ceunant, when the top youth climbers from South Wales met their counterparts from North Wales in a head-to-head competition to produce three winners in each age and gender group to go forward to the UK final in London in June.



The competition was also for the North Wales – South Wales trophy, always a hotly-contested event.

In a nail-biting finish it emerged the teams had tied on 151 points – given the high standard, an appropriate result, despite the suggestion that the competitors and supporters should fight for the trophy!

Winners of each age and gender group (boys/girls – 8 to 10, 11 to 13, 14 to 16) were laden down with prizes generously donated by sponsors. Each was given two BMC trophies: a wooden inscribed plaque and an engraved plate; a chalk bag and a rope bag from local climbing manufacturer DMM and a Welsh team jacket from Boulders Climbing Centre.

For many, the highlight of the competition was the determined effort by Richard Marotta (11), who became stuck towards the top of one climbing challenge, but refused to give up and for seven minutes from one spot tried every way to find a solution, eventually topping out to an ovation from spectators and competitors alike.

Said BMC North Wales youth co-ordinator, Mark Dicken who organised the competition, "This year the standard from both North and South has taken a real leap forward and I'm optimistic that Wales will do really well in the national final"

NWBF Supporting Limestone Activities

Lower Pen Trwyn lower-offs and protection bolts sorted on 16 routes left of *La Bohemme*. BIG THANKS to Pete Harrison for his huge effort so far.

Above the road 120 routes can now lowered-off on the inspected and 'ringed' anchors - most routes from *Dumbell Flyer* to *Mr Chips* – excluding *The Cutaway* and routes around *Pure Gold*. Still quite a few to do so help needed!

Over at Llandulas and Castle Inn, new routing and re-equipping has been going on. Plus several new additions and

clean up's in the 5 - 6c range. Check out Limestone Wiki for full details of new and recently sorted routes:

<http://northwaleslimestone.wetpaint.com/>



Castle Inn

Fine View Wall, the nice wall 50m left of Castle Inn Quarry, has had a makeover by Mike Doyle and Mike Burrows and is now fully developed. This is a fine slab of excellent rough rock which probably has been climbed on since the sixties and now offers a mix of quality trad and sport routes.



The routes left - right:

1. F6a+ *** (M. Doyle) No use of the arete!
2. VS+ ** (F.A. unknown)
3. F6b *** (M. Burrows)

4. E1 5b *** (F.A. unknown)
5. E2 5c * (C. Doyle)

Belay bolts and stakes on the top.

Penmaen Head now has 58 routes and is essentially fully developed. Recently an additional lower-off and an occasional extra bolt have been installed where required. After a mention in the December issue of Climber the venue is set to become very popular once the fine weather starts. There has been a lot of positive feedback about the place.

The Ground Up publishing team will be publishing a mini guide to all the crags along the A55 corridor which will, of course, include all recent developments: Llandulas Cave, Castle Inn and Fine View Wall, The Gallery, Penmaen Head, Craig Bryn Dulas, Notice Board Crag, Penmaenbach Quarry.

Chris Parkin

Next Tremadog Guide

Work is underway on this by the CC. You can still comment on routes at

<http://www.tremadog.wetpaint.com>

Mountain Instructors Community

Over the last few years I've felt there's been an increase in the number of organisations and individuals offering winter mountaineering and climbing courses.

Quite often it's not made clear when booking on any of these courses if you'll end up being taught by a fully-qualified person. This difficulty in identifying suitably qualified winter climbing instruction was one of the catalysts for the formation of

the 'Mountain Instructors Community'.

The Community is a collaboration of instructors who have created an online directory of the 'MIC' qualified membership. The idea is simple and honest - if anyone hires an instructor listed in the directory or displaying the Community's logo, they'll be guaranteed of receiving qualified and experienced instruction.

The community is able to assure experienced instruction by asking its members to demonstrate 'a breadth to their Scottish winter climbing experience' including having climbed to grade V, which more closely reflects contemporary instructional climbing requirements. You'll find it at

www.themic.org.uk

Garry Smith

Live Choughing Pictures from Gogarth

<http://www.rspb.org.uk/reserve/s/guide/s/southstackcliffs/webcam.asp>

National Eisteddford

In August BMC Cymru/Wales will be part of a team with a stand at the National Eisteddford in Bala. The stand will be jointly supported by Clwb Mynydda Cymru, Mountain Training Trust, Mountain Leader Training Wales and the North West Wales Outdoor Partnership. We are hoping to get some sponsorship too.

We need help from Welsh language speakers. We need climbers and hillwalkers to give some time to be on the stand. It would also be very helpful if someone could step forward to help co-ordinate the organisa-

tion from the BMC Cymru/
Wales end.



We are also looking for some supporting material to go in Summit magazine, would anybody have a photo article about climbing in the Bala area? Looking forward to hearing from you at bmccymruwales@live.co.uk

AMI News

AMI reported a highly successful AGM at Glenmore Lodge at the end of January with over 100 members attending (how many come to BMC Cymru/Wales meetings? I saw one AMI badge at TremFest - well done that man, Ed).

In addition, the association has expelled a member from the association for a minimum of 5

years in view of a disciplinary issue.

Work with the Wiki's

Please visit and contribute to the North Wales online climbing guide books supplements at:

www.slate.wetpaint.com
www.tremadog.wetpaint.com
www.northwaleslimestone.wetpaint.com
www.gogarth.wetpaint.com

Report from MLTUK Meeting – Glenmore lodge 7th March 2009

A draft scheme handbook for the Climbing Wall Leading Award has been produced by Board officers. Coaching Qualifications: there are still many discussions to be had before the way forward is clear but a great deal of initial work has been done and the way forward looks positive.

MLTUK and the BMC have submitted a formal application to Sport England for 4 years' funding for a Chief Executive Officer post, which appears to have been quite favourably received.



“Hillwalking” into Welsh.

Publication is proposed for June, ready for a launch at the National Eisteddfod in August (we hope to secure a Ministerial appearance).

Many thanks to Steve Long and Libby Peter for work on this,


Bob Puw for editorial task of checking translation and Mike Raine (BMC Cymru) for his commitment and energy to get this going.

MLTW have given £2k to support the costs of publication and we expect a modest income stream from sales in the future. BMC have paid for translation costs and MTT/Plas y Brenin and Clwb Mynydda Cymru have also supported costs.

Mark Baggy Richards

See you all at the next meeting on June 9th at the Deganwy Castle Hotel at 9 p.m!

BMC CYMRU



CYFARFOD NESAF: 9FED MEHEFIN 9PM

Gwesty'r Castell – Bwyd am Ddim – Croeso i Baw

Cyfarfodydd BMC Cymru

- Mehefin 9fed, Gwesty'r Castell, 9.00 pm, bwyd am ddim fel arfer.
- Medi 1af, Y Faenol, Nant Peris, 8.00 pm.
- Rhagfyr 5ed, Plas y Brenin, Diwrnod Hwyl BMC Cymru.

Cyfarfod First Hydro – Y diweddara am y Chwareli Llechi

Cyfarfu Elfyn Jones, gwirfoddolwr BMC a Chadeirydd Tim Achub Mynydd Llanberis a Mike Raine, Cadeirydd BMC Cymru, gyda Dave Alcock (Prif Swyddog Gweithredol First Hydro), Mike Hickey (Rheolwr Safle Dinorwig), Tony Thomas (Rheolwr Eiddo) a Sue McClaren (Rheolwr Iechyd a Diogelwch) i drafod y sefyllfa o

ran dringo yn y chwareli'n ddiweddar.

Aethom ati i egluro pwysigrwydd y safle i fyd dringo ac i ddringwyr yn lleol, yn genedlaethol ac yn wir yn rhyngwladol.

Mae First Hydro yn awyddus i ni ddeall eu pryder ynglŷn â sut i reoli'r safle. Yn gyfreithiol ni fedrant ganiatáu dringo ar y safle ac mae'r cynnydd presennol yn y defnydd wedi peri peth pryder i'r Rheolwr Eiddo gan mai rhan o'i swydd yw sicrhau nad yw ymwelwyr â'r chwarel yn crwydro oddi ar y llwybr cyhoeddus.

Maent yn cydnabod nad yw'r dringwyr a'r grwpiau'n achosi

unrhyw broblemau ar hyn o bryd ond maent yn pryderu'n fawr bod pobl sydd yn gweld dringwyr a grwpiau ar y safle yn mynd ar y safle gan eu bod yn meddwl ei bod yn iawn ac yn ddiogel i fynd i mewn.

Byddai o gymorth yn sicr pe baech, wrth ymweld â'r chwareli, yn mynd i rywle arall os oes llawer o bobl eisoes yn y fan lle'r oeddech wedi meddwl mynd. Os daw rhywun atoch i siarad â chi am eich bod yno cofiwch mai dim ond gwneud ei waith y bydd y person hwnnw.

Os na fyddwch yn fodlon ar y ffordd y siaredir â chi cy-sylltwch â Mike Raine drwy bmccymruwales@live.co.uk

Y Cyngor Cenedlaethol / Cyfarfod Blynyddol

Cyfarfu'r Cyngor Cenedlaethol cyn y Cyfarfod Blynyddol ar y 25ain Ebrill ym Mhlas y Brenin. Cafwyd mwy o sôn am y Gemau Olympaidd, a chynnig ar ddatganiad polisi sydd yn dweud y bydd BMC yn cydnabod traddodiadau dringo'r DG waeth pa ddatblygiadau newydd a ddaw.

Mae'r sefyllfa ariannol yn dda. Aeth y Cyfarfod Blynyddol yn dda, cafwyd cyflwyniad da am hyfforddi ac yna Fforwm Agored Cenedlaethol a'r Cyfarfod Blynyddol ei hun, ac etholwyd Rab Carrington yn Llywydd. Mae adroddiad llawn ar wefan BMC ac UKC.

Atgoffa am Adar yn Nythu ar Glogwyni Calchfaen Clwyd

Dim ond gair bach i atgoffa dringwyr sydd yn meddwl dringo yn yr ardal hyfryd hon bod cyfyngiadau ar lawer o'r clogwyni oherwydd bod adar a warchodir yn nythu yno.

Mae'r BMC wedi derbyn nifer o adroddiadau bod pobl yn dringo mewn ardaloedd lle mae gwaharddiad a bod hynny'n effeithio ar yr adar sydd yn nythu.

Mae gan ddringwyr fel arfer berthynas dda iawn ag adarwyr lleol a dim ond ardal fach iawn sydd dan waharddiad. At hynny mae'r safleoedd yn cael eu monitro'n gyson ac mae'r gwaharddiadau'n cael eu tynnu cyn gynted ag y bo modd.

Gofynnwn i chi wneud eich rhan i sicrhau bod y trefniadau gwirfoddol hyn yn parhau i weithio. Mae'r manylion diweddaraf am gyfyngiadau nythu clogwyni calchfaen Clwyd ar du-

dalennau RAD (Cronfa Ddata Mynediad Rhanbarthol) y BMC.
Guy Keating

Newyddion o Sir Benfro

Gosododd Steve Quinton a Lynne Ferrand (wardeiniaid dringo) 13 o stanciau belai yn Range West ym mis Chwefror. Buom hefyd ar ymweliad safle â Sant Gofan gyda Bob Haycock o Gyngor Cefn Gwlad Cymru bythefnos yn ôl i chwilio am bâr o hebogiaid tramor sydd yn ôl pob tebyg yn nythu. Canlyniad yr ymweliad fu cyfyngiad dros dro i'r dde o *New Look Arete* ar y clogwyn enfawr lle'r arferai *Face Value* etc. fod. Rhoddwyd gwybod i Gronfa Ddata Mynediad Rhanbarthol BMC.



Hyfforddiant Arweinyddion Mynydd Cymru: newyddion o gyfarfod Chwefror

Trafodwyd y manylion terfynol am swydd Swyddog Datblygu Hyfforddi Arweinwyr Mynydd Cymru ac mae'r swydd bellach wedi ei hysbysebu fel swydd 0.7.

Mae'r gwaith o gyfieithu 'Hill-walking' i'r Gymraeg yn dod ymlaen yn dda. Mynegwyd go-baith y byddai'r llyfr yn cael ei lansio ym Mehefin/Gorffennaf mewn pryd ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol. Diolchwyd i Mike Raine am helpu i yrru'r prosiect yn ei flaen. Cafwyd y safbwynt cyffredinol am y digwyddiadau diweddaraf mewn perthynas ag Achub Mynydd gan Ian Henderson a thynnodd

John Cousins sylw at y diffyg yn rhagolygon y tywydd a roddir gan y Swyddfa Dywydd ar y we am ranbarth Eryri - does dim rhybudd perygl fel sydd am ardaloedd megis Ardal y Llynnoedd.

Cafwyd adroddiad hefyd gan John am ei gyfarfodydd yn ddiweddar gydag AAIAC ac ar ddatblygu canllawiau cwrs rhafau ar gyfer y DG yn seiliedig ar safonau arferol Ewropeaidd.

Dywedodd Joe Roberts, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, bod cyfarfod o bobl sydd yn mynd i geunentydd lleol at ddiben hamdden wedi ei gynnal. Canlyniad y cyfarfod oedd datblygu nodiadau cyfarwyddyd anffurfiol ar gyfer defnydd cynaliadwy o'r ardaloedd hynny a manau tebyg. Cynhelir cynhadledd i drafod materion fel hyn yng Nghaeredin ar y 18fed Tachwedd.

3edd WYL FLYNYDDOL BMC CYMRU YN NHRE- MADOG: 18FED/19EG EB- RILL, 2009.

Am y drydedd flwyddyn yn olynol cynhaliwyd Gŵyl BMC Cymru yn Nhremadog ar y 18fed/19eg Ebrill.



Cafwyd haul tanbaid a thywydd cynnes a daeth 90 o ddringwyr o bob rhan o'r DG i gaffi a chae Eric i wirfoddoli i wneud gwaith garddio.

Nod yr ŵyl flynyddol hon oedd tocio a thaclo tyfiant y gwanwyn ar nifer o'r dringfeydd ar dir sydd yn eiddo i'r BMC, sef Craig Bwlch Y Moch. Cliriwyd 52 o ddringfeydd i gyd. Roedd tociad bach sydyn yn ddigon ar rai ohonynt ond roedd angen llawer mwy o waith ar eraill.

Y trefnydd oedd Mike Raine, BMC Cymru, ar y cyd â Chomisiwn Cefn Gwlad Cymru a dangosodd y digwyddiad bod agwedd dringwyr at glirio dringfeydd sefydlog yn newid. Heb y math hwn o ddigwyddiad blynyddol byddai nifer o'r dringfeydd clasurol, a'r rhai nad ydynt mor glasurol, yn gordyfu y tu hwnt i bob gobaith ac yn y diwedd byddai'n amhosibl, i bob pwrpas, dringo'r dringfeydd. Yn ogystal â hynny, gwnaed peth gwaith hefyd ar y llwybrau a'r grisiau ar waelod y clogwyn. Ar ben y clogwyn archwiliwyd y manau abseilio tua'r ochr dde ac mewn rhai achosion gosodwyd rhaffau a dolenni newydd. Gofynnir i chi lynu at y cyngor a roddir ar yr arwyddion ar hysbysfwrdd y clogwyn os ydych yn bwriadu eu defnyddio yn hytrach na cherdded i lawr.

Aeth yr hwyl ôl-glirio yn ei flaen i'r min nos, gyda raffl a gwobrau a roddwyd yn garedig iawn gan fusnesau lleol megis DMM, V12, Siop Joe Brown, Pete's Eats, Ground Up, Chris Williams a Thafarn y Ring yn Llanfrothen. Drwy ryw gyd-ddigwyddiad roedd oddeutu 90 o wobrau ac felly enillodd pawb wobrr!! Yna cafwyd sioe sleidiau am Batagonia gan Tim Neil a chyneuwyd tân yng nghae Eric. Cafwyd 3 barrel o gwrw go iawn gan Glwb y Dringwyr, y BMC a Chlwb Mynydda Prifysgol

Derby, ac fe aeth i lawr yn dda iawn.

Mae lle i ddiolch yn fawr iawn i Eric Jones am y croeso cynnes a'r cyflenwad diddiwedd o sel-sig a sglodion. Ond mae'r diolch mwyaf i'r holl ddringwyr a roddodd o'u hamser a'u hegni i gyflawni'r gwahanol dasgau. Ar wahân i'r gwaith gwerthfawr ac angenrheidiol, roedd y penwythnos yn llwyddiant cymdeithasol hefyd. Codwyd ymwybyddiaeth o nifer o faterion amgylcheddol sydd yn effeithio ar un o brif glogwyni Cymru ond fe ddangosodd hefyd y medrwn "ni", ddringwyr, roi rhywbeth yn ôl i'r hyn a ddefnyddiwn ac sydd yn rhoi cymaint o bleser i ni.

Jim Kelly

Troednodyn am Dremadog:
Bydd meddygon coed ar safle Bwlch y Moch o'r 5ed Mai ymlaen.

Swyddog Mynediad a Chadwraeth BMC (Cymru).

Mae'r swydd yn cael ei hysbysebu a chynhelir y cyfweliadau ar y 10fed Mehefin, sef, yn anfodus, y diwrnod ar ôl ein cyfarfod nesaf, felly ni chawn gyfarfod â'r swyddog tan fis Medi.

Cymru Annisgwyl o Unedig

Cynhaliwyd rownd derfynol Cymru yng Nghanolfan Ddringo'r Beacon yn y Ceunant a daeth dringwyr gorau De Cymru i gwrdd â rhai tebyg o Ogledd Cymru mewn gornest i ganfod tri enillydd ym mhob grŵp oedran a grŵp rhyw i fynd ymlaen i rownd derfynol y DG yn Llun-dain ym Mehefin.

Roedd y gystadleuaeth hefyd am dlws Gogledd Cymru - De

Cymru, sydd bob amser yn gystadleuaeth frwd.

Roedd y diwedd yn gyffrous iawn a'r timau'n gyfartal gyda 151 o bwyntiau'r un, canlyniad priodol ag ystyried y safon uchel, er gwaethaf yr awgrym y dylai'r cystadleuwyr a'r cefnogwyr gwffio dros y tlws!



Derbyniodd yr enillwyr ym mhob grŵp oedran a grŵp rhyw (bechgyn/merched - 8 i 10, 11 i 13, 14 i 16) wobrau niferus a roddwyd gan noddwyr. Derbyniodd pob un ddau dlws BMC: plac pren ac arno aysgrif, a phlât wedi ei engrafu; bag sialc a bag rhaffau gan DMM, y gwneuthurwyr offer dringo lleol, a siaced tîm Cymru gan Ganolfan Ddringo Boulders.

Uchafbwynt y gystadleuaeth i lawer oedd ymdrech fawr Richard Marotta (11), a oedd yn methu â mynd ymhellach ar un siacens ddringo ond a wrthododd ildio ac am ryw saith munud bu'n ceisio canfod ateb i'w broblem o un man. Yn y diwedd cyrhaeddodd y brig i sŵn bonllefau o gymeradwyaeth gan y gwylwyr a'r cystadleuwyr.

Dyma'r hyn a ddywedodd cydlynnydd ieuencid BMC Gogledd Cymru, Mark Dicken, a drefnodd y gystadleuaeth "Eleni roedd safon y cystadleuwyr o'r Gogledd a'r De wedi codi'n arw ac rwy'n obeithiol iawn y bydd Cymru'n gwneud yn dda iawn

yn y rownd derfynol gened-laethol.”

Cymdeithas Folltau Gogledd Cymru yn cefnogi Gweithgareddau ar Galchfaen

Mae manau gollwng i lawr a bolltau diogelwch wedi eu trefnu ar 16 o ddringfeydd i'r chwith o La Bohemme. DIOLCH YN FAWR IAWN i Pete Harrison am ei ymdrech fawr hyd yma.



Bellach gellir defnyddio manau gollwng uwchlaw'r ffordd ar 120 o ddringfeydd ar y pwyntiau angori a archwiliwyd ac a gafodd gylchoedd wedi eu gosod arnynt - y rhan fwyaf o'r llwybrau o Dumbell Flyer i Mr Chips - heb gynnwys y Cutaway a dringfeydd o gwmpas Pure Gold. Tipyn i'w gwneud eto ac felly mae angen help!

Yn Llanddulas a Thafarn y Castell mae gwaith ad-drefnu dringfeydd ac ailosod cyfarpar wedi cael ei wneud, yn ogystal â nifer o ychwanegiadau newydd a gwaith glanhau yn yr ystod 5 - 6c. Edrychwch ar Wici Limestone am fanylion am y dringfeydd newydd a'r gwelliannau:

<http://northwaleslimestone.wetpaint.com/>

Tafarn y Castell

Mae Wal yr Olygfa Wych, y wal hyfryd 50m i'r chwith o Chwarel Tafarn y Castell wedi cael ei gweddnewid gan Mike Doyle a Mike Burrows a bellach mae wedi ei datblygu'n llawn. Dyma slab o graig arw ardderchog lle bu pobl yn dringo ers y chwe degau yn ôl pob tebyg a bellach mae cymysgedd yno o ddringfeydd traddodiadol a dringo sbort.

Dyma'r dringfeydd o'r chwith i'r dde:

1. F6a+ *** (M. Doyle) Dim defnydd o'r arete!
2. VS+ ** (Nid yw'n hysbys pwy a'i dringodd gyntaf)
3. F6b *** (M. Burrows)
4. E1 5b *** (Nid yw'n hysbys pwy a'i dringodd gyntaf)
5. E2 5c * (C. Doyle)



Mae bolltau belai a stanciau ar y top.

Mae 58 o ddringfeydd ar Benmaen-rhos ac mae wedi ei ddatblygu'n llawn i bob pwrpas. Yn ddiweddar gosodwyd man gollwng i lawr ac ambell folltyn ychwanegol lle'r oedd eu hangen. Yn sgil cyfeiriad yn rhifyn Rhagfyr o'r Climber mae'n debygol y daw'n fan poblogaidd iawn pan ddaw

gwell tywydd. Cafwyd llawer o adborth positif am y lle.

Bydd tîm cyhoeddi Gound Up yn cyhoeddi arweinyfr bychan i'r holl glogwyni ar hyd coridor yr A55 a fydd, wrth gwrs, yn cynnwys y datblygiadau diweddaraf: Ogor Llanddulas, Tafarn y Castell, a Wal yr Olygfa Wych, Y Galeri, Penmaen-rhos, Craig Bryn Dulas, Craig yr Hysbyswrdd, Chwarel Penmaenbach.

Chris Parkin

Llyfr Tywys Nesaf Tremadog

Mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn gan y Climbing Club. Mae modd i chi gyflwyno sylwadau am ddringfeydd ar <http://www.tremadog.wetpaint.com>

Cymuned Hyfforddwyr Mynydd

Teimlaf fod cynnydd wedi bod yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn y nifer o sefydliadau ac unigolion sydd yn cynnig cyrsiau mynydda a dringo gaeaf.

Nid yw bob amser yn glir wrth i chi archebu lle ar un o'r cyrsiau hyn a fyddwch yn cael eich hyfforddi gan berson sydd yn meddu ar gymwysterau llawn ai peidio. Yr anhawster hwn i ganfod hyfforddiant mewn dringo gaeaf gan berson â'r cymwysterau priodol oedd y tu ôl i sefydlu MIC (y 'Gymuned Hyfforddwyr Mynydd'), sef nifer o hyfforddwyr sydd wedi creu cyfeirlyfr ar-lein o aelodau sydd yn meddu ar gymhwyster 'MIC'.

Mae'r syniad yn un syml a gonest - os yw rhywun yn cael hyfforddiant gan hyfforddwr sydd yn y cyfeirlyfr neu sydd yn arddangos logo'r Gymuned bydd gan y person hwnnw

sicrwydd y bydd yn derbyn hyfforddiant gan berson sydd â chymwysterau a phrofiad.

Gall y gymuned sicrhau y rhoddir hyfforddiant profiadol drwy ofyn i'r aelodau arddangos 'ys-tod eang o brofiad mewn dringo yn y Gaeaf yn yr Alban' yn cynnwys dringo hyd radd V, gan fod hynny'n adlewyrchu gofynion hyfforddi dringo cyfoes: www.themic.org.uk

Garry Smith

Lluniau byw o'r Frân Goes-goch ar y Gogarth
<http://www.rspb.org.uk/reserve/s/guide/s/southstackcliffs/webcam.asp>

Yr Eisteddfod Genedlaethol
Ym mis Awst bydd BMC Cymru'n rhan o dîm a fydd â stondin yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Bala. Byddant yn rhannu'r stondin gyda Chlwb Mynydda Cymru, yr Ymddiriedolaeth Hyfforddi Mynydd, Hyfforddi Arweinwyr Mynydd Cymru a Phartneriaeth Awyr Agored Gogledd Orllewin Cymru. Gobeithiwn gael nawdd hefyd.

Mae angen siaradwyr Cymraeg i helpu. Bydd angen dringwyr a mynyddwyr i fod ar y stondin. Byddai'n gymorth mawr hefyd pe bai rhywun yn medru dod ymlaen i helpu i gydlynu'r trefniadau ar ran BMC Cymru. Rydym hefyd yn chwilio am ddeunydd i fynd i'r cylchgrawn Copa. A oes gan unrhyw un erthygl gyda llun am ddringo yn ardal y Bala? Edrychwn ymlaen at glywed gennych:
bmccymruwales@live.co.uk

Newyddion AMI

Cafwyd adroddiad gan yr AMI bod Cyfarfod Blyneddol hynod o lwyddiannus wedi ei gynnal yn Glenmore Lodge ddiwedd Ionawr gyda mwy na 100 o ae-

lodau'n bresennol (faint sydd yn dod i gyfarfodydd BMC Cymru? Gwelais un bathodyn AMI yng Ngŵyl Tremadog - da iawn, y person hwnnw, gol).
Yn ogystal â hynny mae'r gymdeithas wedi diarddel aelod o'r gymdeithas am o leiaf 5 mlynedd oherwydd mater yn ymwneud â disgyblaeth.

Gwaith Wici

Edrychwch ar yr atodiadau at lyfrau tywys Gogledd Cymru ar:

www.slate.wetpaint.com
www.tremadog.wetpaint.com
www.northwaleslimestone.wetpaint.com
www.gogarth.wetpaint.com



Adroddiad o Gyfarfod MLTUK (Hyfforddi Arweinwyr Mynydd y DG) – Glenmore lodge 7th Mawrth 2009

Mae swyddogion y Bwrdd wedi cynhyrchu llawlyfr drafft ar gyfer cynllun y Wobr Arwain ar Wal Ddringo. Cymwysterau Hyfforddi: mae eto lawer o drafodaethau cyn y bydd y ffordd ymlaen yn glir ond mae llawer o waith cychwynnol wedi ei wneud ac mae'r ffordd ymlaen yn edrych yn bositif.

Mae MLTUK a BMC wedi cyflwyno cais ffurfiol i Sport England am arian am 4 blynedd ar gyfer swydd Swyddog Gweithredol, ac ymddengys i'r cais gael derbyniad eithaf ffafriol.

“Hillwalking” yn Gymraeg.

Y gobaith yw y bydd wedi ei gyhoeddi erbyn mis Mehefin ac y bydd yn cael ei lansio yn yr Eisteddfod Genedlaethol (gobeithiwn fedru cael y Gweinidog yn y Cynulliad i'w lansio).

Diolch yn fawr iawn i Steve Long a Libby Peter am eu gwaith arno, i Bob Puw am y dasg olygyddol o brawffdarllen y cyfieithiad ac i Mike Raine (BMC Cymru) am ei ymroddiad a'i egni gyda'r gwaith hwn. Mae Hyfforddi Arweinwyr My-



nydd Cymru (MLTW) wedi rhoi £2k tuag at gost y llyfr a disgygliwn y bydd peth elw o'r gwerthiant yn dod i'r coffrau yn y dyfodol. Mae BMC wedi talu am y cyfieithu ac mae'r Ymddiriedolaeth Hyfforddi Mynydda (MTT)/Plas y Brenin a Chlwb

Mynydda Cymru hefyd wedi
helpu gyda'r costau.

Mark Baggy Richards

**Cawn eich gweld yn y cyfar-
fod nesaf ar 9fed Mehefin yng
Ngwesty'r Castell, Deganwy
am 9 p.m.**